

Darganfod Pwrpas

Yn ystod yr wythnosau oedd yn arwain i fyny at y Pasg buom yn dilyn hynt a helynt nifer o gymeriadau a gawsant eu synnu wrth ddarganfod gras a chariad, awdurdod a thrugaredd Duw mewn llefydd annisgwyl. Y tro hwn, wedi'r Atgyfodiad, derbyniodd y disgyblion her, galwad a sialens – a thrwy hynny bwrpas newydd i'w bywydau.

Mae popeth wedi ei greu am bwrpas.

Mae'r gliadiadur rydw i'n teipio arno rŵan wedi ei greu am bwrpas; mae fy oriawr sydd yn dweud yr amser wrthyf wedi ei greu am bwrpas.

Ond beth amdanaf i a beth amdanoch chi?

I ba bwrpas rydym wedi ein creu?

Beth yw ein galwad mewn bywyd?

Dim ond un lle sydd i edrych i ddarganfod pam ydym wedi cael ein creu. Y Creawdwr ei hun yw'r hwn sy'n medru egluro hynny i ni.

Mae **Eseia 43:7** yn dweud wrthym fod Duw wedi ein creu i ddangos ei ysblander.

... ac wedi'u creu i ddangos fy ysblander i. Ie, fi wnaeth eu siapio a'u gwneud nhw.

Felly ein pwrpas ni ydi dangos ysblander a gogoniant y Duw a'n creodd ni.



Hau'r had cyn medi cynhaeaf?

Ac mae Iesu yn dweud wrthym ymhellach yn Mathew 28:16-20 sut allwn i wneud hynny:

Aeth yr un disgybl ar ddeg i Galilea i'r mynydd lle y trefnodd Iesu iddynt fod; a phan welsant ef addolasant ef, er bod rhai yn amau. Daeth Iesu atynt a llefaru wrthynt: "Rhoddwyd i mi," meddai, "bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a roddais i chi. Ac yn awr, yr wyf fi gyda chi bob amser hyd ddiwedd amser."

Mae adnodau olaf Mathew yn adrodd rhai o eiriau olaf Iesu i'w ddisgyblion cyn iddo adael y ddaear. Ac mae'n nodi prif bwrpas a'n galwad ni fel ei ddilynwyr "Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd."
(parhad ar dudalen 2)

CRYNODEB O ARAITH LLYWYDD Y GYMDEITHASFA YN Y GOGLEDD – Ebrill 9fed 2019

“BETH SYDD GENNYT YN DY LAW” Exodus 4:2

“Dewisodd Duw y bobl gyffredin yng ngolwg y byd, i godi cywilydd ar y pwysigion hynny sy'n dal grym. Dewisodd y bobl sy'n neb, y bobl hynny y mae'r byd yn edrych i lawr arny'n nhw, i roi taw ar y rhai sy'n meddwl eu bod nhw'n rhywun.” (1 Cor 1: 27–28)

Dyn ifanc cyffredin oedd Dafydd fab Jesse, yr ieuengaf o'r teulu, bugail ar fryniau Bethlehem, ond er hynny gwelodd Duw galon Dafydd a'i alw'n frenin ar y wlad.

'Doedd Moses yn neb pwysig, chwaith; bugail cyffredin, yn bugeilio defaid Jethro ei dad yng nghyfraith; ond ymddangosodd Duw iddo mewn perth oedd yn llosgi heb ei difa. 'Roedd Duw wedi clywed cri'r genedl yn yr Aifft ac eisiau iddo fynd at Pharo i ofyn iddo eu gollwng yn rhydd.

Teimlo'n annigonol iawn wnaeth Moses, a phrotestio “Pwy ydw i, i wneud y fath beth, allai ddim, anfon rhywun arall?”

“Byddaf fi gyda thi 'rwy'n addo,” meddai Duw.

Mae llawer wedi gofyn y cwestiwn yna wrth i Dduw alw arnynt. “Pwy ydw i dderbyn galwad Duw?” Ond mae Duw yn gweld potensial mewn pobl, rhywbeth na allwn ni ei weld, a hyd yn oed heddiw. A phan fo pethau yn edrych yn dywyll, mae Duw yn dal i alw gweithwyr i'w gynhaeaf, ac wedi addo arwain a rhoi nerth bob amser.



Y Parch Olwen E. Williams

Wedi galw Moses, ac ar ôl iddo brotestio, mae Duw yn gofyn cwestiwn iddo. “Beth sydd gen ti yn dy law” – beth sydd gen ti nid neb arall. Dim ond ffon fugail cyffredin oedd ganddo.

Ynghanol dyddiau ansicr fel heddiw mae Duw yn dal i ofyn i bob un ohonom “Beth sydd gen ti yn dy law.” Ac mae gennym i gyd rhywbeth y gall Duw ei ddefnyddio.

Be wnaeth Moses?

(parhad ar dudalen 2)

CRYNODEB O ARAITH Y LLYWYDD (parhad)

DAL YN YR HYN OEDD GANDDO

Ffon fugail oedd wedi bod yn gwmni iddo oedd gan Moses. Roedd wedi arwain y praidd gyda hi i ddringo creigiau serth, ac i wastadedd ffrwythlon. Y ffon oedd yn achub y praidd rhag perygl. Roedd hi'n rhan o'i bersonoliaeth, yn dangos i bawb pwy oedd o.

Bugail tlawd yn bugeilio defaid rhywun arall, oedd Moses, ac efallai wedi iddo ladd yr Eifftiwr yn yr Aifft, ei fod yn teimlo nad oedd yn deilwng i fod yn ddim arall ond bugail.

Mae yna bethau sy'n gwneud ni deimlo'n annheilwng i waith Duw. Pethau yn y gorffennol, rhywbeth wnaethom ni, methu maddau, methu anghofio, ein meddiannau, ein llywyddiannau. Fel Moses yn pwyso ar ei ffon, rydym ninnau'n dueddol i bwysu ar y rhain. Ond dysgodd Duw i Moses edrych heibio'r ffon ar bethau gwell.

Ar lwybr bywyd pan mae pethau'n ein llorio, edrychw'n heibio iddynt a chadwn ein golwg ar Grist a'i farwol groes, a gwelwn ninnau fod yna ffordd arall heibio.

Arnat Iesu boed fy meddwl, ar dy gariad boed fy nghân, dyged sŵn dy ddiodeffiadau, fy serchiadau oll yn lân, mae dy gariad uwch a glywodd neb erioed.

DALIODD YR UNIG BETH OEDD GANDDO

Beth sydd gen ti yn dy law? Dim ond ffon fugail. Do bu amser pan oedd ganddo deyrnwialen yn ei law, yn cael yr addysg orau ym mhalas Pharo, a phopeth gorau yn yr Aifft o'i flaen. Erbyn hyn doedd ganddo ddim ond ffon.



Moses a'r Berth yn Llosgi gan Domenico Fetti

Darganfod Pwrpas (parhad)

Mae Iesu yn gorchymyn i ni i fynd a gwneud disgyblion eraill a bydd hyn yn dod a chlod a gogoniant i'w enw.

Dywedodd y pregethwr G. Campbell Morgan ar ddechrau'r 20fed ganrif "The greatest passion of the heart of Christ was not the saving of men but the glory of God, and then the saving of men because it is for the glory of God."

Yn adnod 16 rydym yn gweld y disgyblion yn ceisio gwneud synnwyr o bopeth oedd wedi digwydd, y siom a dryswch y groes a gorfoledd enfawr yr atgyfodiad! Mae'n siŵr eu bod yn meddwl, "Beth sydd nesaf?"

Dyma Iesu yn dod a siarad yn awdurdodol efo nhw gan ddatgan fod ganddo "**bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear**" ac yn yr awdurdod yna roedd o yn anfon ei ddisgyblion i fynd i wneud disgyblion, i orffen y gwaith yr oedd o wedi ei ddechrau.

Beth mae hynny yn golygu i ni fel dilynwy'r Iesu heddiw?

Mae'n golygu mynd a rhannu'r newyddion da am Iesu, am ei gariad, ei faddeuant a'i ogoniant i rai sydd ddim yn ei ddilyn, er mwyn iddynt hefyd gael dod yn ddisgyblion i Iesu. Yna i'w dysgu

a'u harfogi i fyw dros Iesu yn ein byd sydd yn ei anwybyddu ac ar adegau yn elyniaethus tuag at yr Iesu a'i ddisgyblion. Rydym yn gwneud hyn gyda'n geiriau ond hefyd drwy ein bywydau.

Pan mae pobl yn edrych ar ein bywydau, ydyn nhw'n gweld bywydau o wir argyhoeddiad sydd wedi ei selio ar air Duw a'i efengyl, sydd yn angerddol am gyrraedd y colledig ac sydd yn adlewyrchu cariad a gogoniant Crist i'n byd?

Mae rhaid i mi gyfaddef, am gyfnodau yn fy mywyd Cristnogol, rwyf wedi cymryd fy "Ilygad oddi ar y bêl" a bod pethau eraill wedi denu fy sylw. Er eu bod weithiau yn bethau "da", nid dyna'r prif bwrpas sydd gan Dduw ar fy nghyfer i na chi.

Y pwrpas y cawsom ein creu ar gyfer yw byw bywydau sydd yn ei ogoneddu o, sydd yn rhannu'r newyddion da gyda phawb o'n cwmpas ac sydd yn galluogi eraill i weld mor ffantastig ydi ein Gwaredwr. Boed i Dduw ein llenwi ni gyda thân ei Ysbryd Glan a'n galluogi i fyw felly.

*Owain a Sian Edwards,
Coleg y Bala*

Mae Duw yn gofyn i ninnau beth sydd gennym yn ein llaw? Beth sy'n sefyll rhyngom ni a gwasanaethu'r Arglwydd? Peidiwn â gadael iddynt gymeryd drosodd, neu bydd ewyllys Duw ddim yn cael lle yn ein bywyd.

Meddai Paul, "Felly am fod Duw wedi bod mor drugarog wrthy ch chi frodyr, dwi'n apelio ar i chi roi eich hunain yn llwyr i Dduw". (Rhufeiniaid 12:1)

Beth sydd gen ti yn dy law? Mae beth bynnag mae O angen gennym yn barod. Ymddiriedwn ynddo.

O maddau maddau fy ymdrechion gwyw, hyderus wyf am newydd fodd i fyw, tyn pob rhyw ddyrgau cudd o'm calon i, a rho im degwch fel dy degwch di.

MOSES YN CYFLWYNO BETH OEDD GANDDO

Roedd Duw angen yr unig beth oedd gan Moses i achub y genedl.

Drwy wahanol wyrthiau dysgodd Duw i Moses mor bwysig oedd y ffon oedd ganddo. Trodd y ffon yn sarff wrth ei thafllu ar lawr; yna, trodd yn ôl yn ffon wrth i Moses ufuddhau i Dduw. Aeth ei law yn wahanglwyfus, ond trwy orchymyn Duw daeth yn ôl yn iach.

Y sarff oedd un o'r duwiau oedd gan Pharo, a byddai yn gwisgo un felly fel tlws o gwmpas ei wddw. Dangosodd Duw ei fod yn llawer mwy pwerus na'u duwiau hwy.

Ffon angenrheidiol bugail yn dod yn rhywbeth byw, yn llawn o bŵer Duw, rhywbeth oedd yn mynd i achub cenedl.

Beth sydd gennynt yn dy law? Mae ar Dduw ei angen i wneud gwahaniaeth heddiw.

Dim ond ffon dafl oedd gan Dafydd, dim ond pum torth a dau bysgodyn oedd gan y bachgen bach; ond defnyddiodd Duw hwy i bethau mwy.

Hen, ifanc, tlawd, cyfoethog – mae yna waith ar ein cyfer, a Duw yn barod i ddefnyddio'r hyn sydd gennym.

Peidiwn â digalonni. Wyddom ni ddim efallai mai cyfarfod gweddi syml, ar aelwyd rhywun, pobl mewn gwir addoliad, neu griw o bobl ifanc yn canmol Iesu Grist, neu hyd yn oed blentyn bach yn adrodd stori Duw, fydd O yn ei ddefnyddio i ddod a deffroad i'n gwlad.

Beth sydd gennynt yn dy law?

Dyna'r cwestiwn o hyd "Felly gan fod Duw wedi bod mor garedig a rhoi'r gwaith yn ein gofal, dy'n ni ddim yn digalonni," meddai Paul wrth y Corinthiaid.

Rhown y cwbl iddo o'r newydd.

Abba Dad o gad im fod fyth yn eiddo ti.

Olwen Williams